Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# Cylchlythyr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) Ebrill 2026

## Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig

Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) Rhif ffôn 0141 726 2397  Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Os ydych chi'n pryderu am lythyr gwahoddiad i hawlio gan yr IBCA, gallwch ffonio prif linell IBCA i wirio bod y gwahoddiad yn ddilys.

Bydd cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cau ar **16** Ionawr **2027 ac erbyn hynny, bydd yr IBCA wedi cymryd drosodd yr holl fuddiolwyr yn llawn.**

## Costau Ynni

Yng Nghynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, rydym yn deall y gall costau byw cynyddol effeithio ar ein buddiolwyr. Rydym hefyd yn deall y gall cyflyrau iechyd parhaus olygu bod rhai pobl yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill.

Roedden ni eisiau eich atgoffa bod nifer o gynlluniau cymorth ynni a dŵr ar gael, er y gall y cymorth a gynigir amrywio yn dibynnu ar eich **darparwr ynni** a'ch **cyflenwr dŵr** presennol. Os ydych chi'n teimlo y gallai fod angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â'ch darparwr yn uniongyrchol i ddarganfod pa gefnogaeth y gallant ei chynnig.

Mae'r **Tîm Hawliau Lles** ar gael hefyd i drafod eich amgylchiadau personol ac i archwilio pa help ychwanegol y gallech fod â hawl i'w gael. Cysylltwch â ni ar **02921 500900** neu **wibss@wales.nhs.uk**.

## CYSYLLTU

Cysylltwch â WIBSS ar **02921 500900** neu anfonwch e-bost at **wibss@wales.nhs.uk**

Os na chaiff eich galwad ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt, ac fe wnawn ni eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr Adran Seicoleg a Lles, anfonwch e-bost at: **wibss.wellbeingservice @wales.nhs.uk**

**Cyswllt Diweddar**

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.
Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n lythyr gan WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500900**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

## Learn my Way - cymorth Sgiliau Digidol am ddim

Hoffai WIBSS dynnu sylw at **Learn My Way,** platfform ar-lein am ddim sydd wedi'i gynllunio i helpu pobl i feithrin sgiliau digidol sylfaenol, ac i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.

Mae Learn My Way yn cael ei ddarparu gan yr elusen *Good Things Foundation*, ac mae'n cynnig cyrsiau hawdd eu dilyn ar y canlynol:

- Dechrau arni gyda chyfrifiaduron a'r rhyngrwyd
- Sefydlu a defnyddio **cyfrif e-bost**
- Deall a rheoli cyfrif **Credyd Cynhwysol**
- Cadw'n **ddiogel ar-lein**, gan gynnwys diogelu gwybodaeth bersonol ac ariannol

Gallai'r adnodd hwn fod yn arbennig o ddefnyddiol i unrhyw un a hoffai gryfhau eu hyder digidol ar eu cyflymder eu hunain mewn ffordd ddiogel a chefnogol.

## Nodyn Atgoffa - Diogelu Arian

Gyda chynllun yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) bellach ar waith, a sylw yn y cyfryngau ynghylch iawndal am Waed Heintiedig, rydym eisiau atgoffa pawb i barhau i fod yn wyliadwrus am dwyllwyr a sgamiau posibl.

Byddwch yn arbennig o ofalus ynglŷn â rhannu gwybodaeth bersonol neu fenthyca arian i unrhyw un, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymddangos yn ddilys. Yn anffodus, mae troseddwyr yn aml yn manteisio ar sefyllfaoedd fel hyn i dargedu pobl.

**Mae Take Five yn ymgyrch genedlaethol sy'n cynnig cyngor syml a diduedd i helpu i amddiffyn rhag twyll a sgamiau ariannol. Gallwch ddod o hyd i awgrymiadau ac adnoddau defnyddiol yn:**

👉 www.takefive-stopfraud.org.uk

Os ydych chi byth yn ansicr am rywbeth neu eisiau gwirio ddwywaith a yw rhywbeth yn edrych yn gyfreithlon, mae bob amser yn iawn oedi a gofyn am gyngor.

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

## Cymorth Hawliau Lles

Hoffem eich atgoffa bod ein Tîm Hawliau Lles yn cynnig **gwasanaeth cyfrinachol ac ymroddedig** i'ch cefnogi chi a'ch teulu. Gall y tîm helpu gyda nifer o faterion, gan gynnwys materion budd-daliadau, cynyddu incwm, rheoli arian, eiriolaeth a chymorth cyffredinol.

Ein nod yw gwneud cael mynediad at gymorth mor hawdd â phosibl. Mae apwyntiadau ar gael drwy **ymweliadau cartref, dros y ffôn, drwy e-bost** a thrwy **apwyntiadau ar-lein (Teams).**

Gallwch gysylltu â'r tîm gan ddefnyddio'r rhif a ddarperir uchod, a byddwn yn hapus i helpu.

## Diweddariad ar Fudd-daliadau 2026/2027

Mae disgwyl i fudd-daliadau gynyddu ym **mis Ebrill 2026**. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch sut y gallai'r cynnydd hwn effeithio arnoch chi, cysylltwch â'r Tîm Hawliau Lles neu ewch i wefan **GOV.UK** am fanylion llawn.

Mae newidiadau ar ddod hefyd i **ymgeiswyr newydd** sy'n hawlio elfen **Gallu cyfyngedig ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith (LCWRA)** o fewn Credyd Cynhwysol. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfraddau budd-daliadau a phensiwn arfaethedig ar gyfer **2026–2027** ar gael yma:

🔗 https://www.gov.uk/government/publications/benefit-and-pension-rates-2026-to-2027/proposed-benefit-and-pension-rates-2026-to-2027

## Y Tîm Seicoleg a Lles

Mae Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant WIBSS yn parhau i ddarparu cymorth i aelodau WIBSS a'u teuluoedd estynedig. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod ar agor i **atgyfeiriadau newydd**, ac mae'n debygol y bydd yn cael ei ymestyn am gyfnod yn dilyn cau WIBSS.

Os ydych chi neu aelod o'r teulu'n profi unrhyw **anawsterau emosiynol neu lesiant gyda'r broses o hawlio gan yr IBCA, cofiwch fod y Tîm Seicoleg a Lles yma i helpu. Mae cefnogaeth ar gael ar bob cam o'r broses.**